

## **CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG**

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun**, 14eg Mai, 2018, yn Neuadd Goffa, Sarn, o 7.50 p.m. hyd 8.50 p.m.

Presennol: Y Cyngorydd Glenys Williams (Cadeiryddes)  
Y Cyngorydd Glyn Roberts (Is-Gadeirydd)  
Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Elin Hughes, Gwenan Griffith, Dylan Parry Jones, Ifor Owen, Michael Strain, Carys E. Williams, Siôn Williams  
Y Cyngorydd Gareth Williams (Y Cyngorydd Sir)

### **7. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

**Diolchodd** y Gadeiryddes am yr anrhydedd unwaith eto o fod yn llywio gweithgareddau'r Cyngor am flwyddyn a dywedodd ei bod yn gwerthfawrogi'r cyfle yn fawr iawn.

### **8. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad buddiant personol.

### **9. CADARNHAU COFNODION**

**Cyflwynwyd**, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor 9fed Ebrill, 2018, oddigerth i ychwanegu fod Y Cyngorydd Elin Hughes wedi cyflwyno ymddiheuriad am absenoldeb o'r cyfarfod diwethaf.

#### **MATERION YN CODI**

##### **(1) Eitem 109 – Cadarnhau Cofnodion – cymal (2)(ch) Biniau Halen**

**Adroddodd** y Clarc fod Peiriannydd Rhanbarthol Dwyfor, Cyngor Gwynedd, wedi bod mewn cysylltiad a hi ynglyn a'r biniau halen ac ei bod yn ymchwilio i fewn i'r mater ac yn ei ffonio'n ôl.

**Penderfynwyd** derbyn y wybodaeth.

##### **(2) Eitem 109 Cadarnhau Cofnodion – cymal (c) .. Arolwg o'r Trefniadau etholiadol ar gyfer Sir Gwynedd – Cynigion Drafft**

**Adroddodd** y Clarc fod cydnabyddiaeth wedi ei dderbyn gan Brif Weithredwr Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru a bydd sylwadau'r Cyngor yn cael eu hystyried "gan y Comisiwn gyda'r sylwadau eraill a dderbyniwyd pan fydd y Comisiwn yn paratoi eu Cynigion Terfynol."

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth.

### **(c) Eitem I09 Cadarnhau Cofnodion – Eitem I02 – Materion Iechyd**

**Adroddodd** y Clarc iddi dderbyn galwad gan Mr. Dave Shaw, Rheolwr Meddygfa Botwnnog yn ymddiheuro na allai ddod i gyfarfod o'r Cyngor ond yn hytrach rhoddod wahoddiad i ddirprwyaeth ddod i'w weld gydag un neu ddau o'r Meddygon yn ystod amser cinio er cael cyfle i wyntyllu pryderon y cyhoedd.

**Penderfynwyd** derbyn y gwahoddiad ac fod y Gadeiryddes, Y Cynghorwyr Ifor Owen a Glyn Roberts i gyfarfod Y Rheolwr a'r Meddygon.

### **(ch) Eitem I12 – Materion Ffyrdd**

**Cyflwynwyd** atebiad Peiriannydd Ardal Dwyfor fel a ganlyn:

Y twll ger Trefaes Bach, Botwnnog wedi cael sylw.

Y gwaith o lanhau'r draen ger Hen Bost, Sarn, wedi ei gynnwys ar raglen waith y lori glanhau traeniau.

Y mater o Lon Las o Foel Mellteyrn i Ty'n y Marla wedi tynnu sylw Ystad Cefnamwlch "gydag addewid y gwnaiff Swyddfa'r Ystad archwilio'r mater."

**Penderfynwyd** derbyn y wybodaeth.

### **(d) Eitem I06 – Ceisiadau am Gyfraniadau Ariannol**

**Cyflwynwyd** adroddiad fod slip derbyn cyfraniad wedi ei dderbyn gan Apel Ambiwllans Awyr Cymru i Blant, Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018 a Chyfeillion Mynwent Mellteyrn ac i lythyr gan ei dderbyn oddi wrth O Ddrws i Ddrws yn amlinellu gwasanaeth y Bws Arfordir.

**Penderfynwyd** derbyn y wybodaeth.

### **(dd) Eitem I07 – Talu'r Cynghorwyr**

**Cyflwynwyd** atebiad Luned Evans, Swyddog Datblygu Gogledd Cymru o Un Llais Cymru ynglyn a thalu'r Cynghorwyr:

"£150 ydi'r lwfans. O safbwynt derbyn y lwfans er mwyn ei roi yn ol mewn cyfrif arall er mwyn ei wario ar rywbeth er budd y gymuned, yna byddwn yn teimlo fod hyn yn wastraff llwyr ar amser - nid yw'n ffordd o godi mwy o arian, dim ond mynd ag arian arferol o gyllideb y Cyngor ar drip. Does na ddim mantais yn hyn o gwbl, ac yn sicr nid yw'n golygu fod mwy o arian ar gael.

Os ydi'r cyngor eisiau cefnogi ryw fenter yn ariannol yn y dyfodol, yna byddai'n llawer haws codi'r presept i'r pwrpas hwnnw y flwyddyn nesaf, os nad oes arian yn y coffrau at ei gefnogi eleni. Os yw'n wariant er budd y gymuned, yna fel arfer does fawr o rwystrau cyfreithiol dros wneud hynny gan mai dyna brif bwrpas cyngor cymuned. Byddai yr hyn a awgrymir hefyd yn rhoi pwysau ar ambell un a fyddai efallai, heb son wrth neb, yn falch o dderbyn yr arian tuag at eu costau, i fod yn ei roi yn ol i'r cyngor. Mae hyn yn mynd yn groes i fwriad yr holl lwfans."

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth.

10. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Nid oedd unrhyw gais i law.

11. **MATERION IECHYD**

Nid oedd unrhyw fater i'w anfon ymlaen i'r Cyngor Iechyd.

12. **MATERION FFYRDD**

**Penderfynwyd** anfon y materion a ganlyn ymlaen at Beiriannydd Ardal Dwyfor:

- (a) Twll uwchben Capel Tyn Donan, Botwnnog angen sylw.
- (b) Y ffordd o Benygroeslon am Graig Ewig mewn cyflwr gwael.

Tynwyd sylw fod y fainc ar gomin Bryncroes wedi malu ac addawodd Y Cyngorydd Glyn Roberts gael golwg ar y cyfryw a rhoddwyd hawl i'r Gadeiryddes symud ymlaen i'r aelod ei thrwsio.

13. **ADRODDIAD ARCHWILIO LLIFOGYDD BOTWNNOG**

**Cyflwynwyd** adroddiad ymchwilio llifogydd yn nhalgylch Afon Soch ym Motwnnog 22ain Tachwedd, 2017 – copi wedi ei anfon i bob aelod gyda'r rhaglen. Adroddodd Y Cyngorydd Gareth Williams, Y Cyngorydd Sir, ei fod yn cyfarfod unwaith eto gyda Swyddog o Gyfoeth Naturiol Cymru y dydd Mercher canlynol a byddai'n adrodd yn ôl yn dilyn hynny.

14. **AWDURDOD I DALU**

**Penderfynwyd** awdurdodi'r taliad a ganlyn:

Llanw Llyn – hysbyseb tendrau barbio £13.50

15. **ARCHWILIO'R CYFRIFON**

**Cyflwynwyd** adroddiad y Clarc fod:

- (a) Y llyfrau yn barod i fynd i Gyngor Gwynedd i'w harchwilio'n fewnol – nododd fod angen gwybodaeth a manylion llawer ehangach na'r arfer.
- (b) Angen i'r ffurflen flynyddol ynghyd ag adroddiad Cyngor Gwynedd fod yn llaw y BDO erbyn 2ail Gorffennaf, 2018.

Nodwyd fod y rhybuddion perthnasol wedi eu gosod i fyny mewn manau cyhoeddus o fewn y Gymdeithas er rhoi gwybodaeth i'r etholwyr o'u hawliau.

**Penderfynwyd** derbyn yr adroddiad.

## 16. **DEDDF DIOGELU DATA**

**Adroddodd** y Clarc fod canllawiau newydd yn dod i rym ar 25ain Mai, 2018, o berthynas i'r Ddeddf uchod, ond hyd yn hyn nid oedd yn sicr beth oedd dyletswyddau'r Cyngor. Dywedodd y byddai'n adrodd yn ôl.

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth.